Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod:**

**Cwotâu rhyw ac amrywiaeth yng Nghymru**

**Noddwyd gan Siân Gwenllian AS**
**17 Medi 2021**
**Zoom, 11:30 – 12:30**

***Yn bresennol:***
*Sian Gwenllian AS (Cadeirydd)*
*Jenny Rathbone AS (Siaradwr)*
*Jane Dodds AS*
*Peter Fox AS*
*Laura Jones AS*
*Sioned Williams AS*
*Laura McAllister, Prifysgol Caerdydd*
*Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru) (Siaradwr)*
*Patience Bentu, Diverse5050*
*Bessie Johnson, Bawso*
*Cerys Furlong, Chwarae Teg*
*Rebecca Rickard, Chwarae Teg*
*Tomos Evans, Chwarae Teg*
*Ele Hicks, Diverse Cymru*
*Jess Blair, ERS Cymru*
*Rhianydd Williams, TUC*
*Abi Thomas, Plaid Cymru (Etholaeth Caerfyrddin a Sir Benfro)*
*Alison Parken, Ysgol Fusnes Caerdydd*
*Jen Ramsay, Swyddfa Paul Davies AS*
*Debbie Shaffer, FTWW*
*Tina Reece, Cymorth i Fenywod Cymru.*
*Rosanna Johnston, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*
*Leena Farhat*
*Kirsty Rees*
*Yasmin Begum*
*Catherine Fookes, WEN Cymru*
*Megan Evans, WEN Cymru*
*Evelyn James, WEN Cymru (Siaradwr)*
*Jessica Laimann, WEN Cymru (Siaradwr)*

***Ymddiheuriadau:***
*Delyth Jewell AS*
*Sarah Murphy AS*
*Joyce Watson AS*
*Carolyn Thomas AS*
*Llyr Gruffydd AS*
*Sarah Childs, Prifysgol Llundain*
*Natasha Davies, Chwarae Teg*
*Victoria Winckler (Sefydliad Bevan)*
*Iestyn Wyn, Stonewall Cymru*
*Melissa Wood (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso, Ymddiheuriadau, Cyflwyniad** - *Cadeirydd* |
| 2 | **Yr achos dros bennu cwotâu rhyw ac amrywiaeth yng Nghymru -** Jessica Laimann ac Evelyn James (WEN Cymru)<br><br>Cyflwynodd Jessica ac Evelyn dystiolaeth ryngwladol yn dangos pa mor effeithiol yw cwotâu rhyw. Roedd y data'n dangos mai cwotâu oedd yr offeryn unigol mwyaf effeithiol ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth menywod ar gyrff etholedig yn gyflym. Roeddent yn cael eu defnyddio eisoes mewn 100 o wledydd ar hyd a lled y byd gan gynnwys llawer o wledydd yr EU27.<br><br>Roedd data ar effeithiolrwydd cwotâu mewn gwledydd eraill, a'r profiadau yn Iwerddon a drafodwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Grŵp, yn dangos bod cwotâu yn fwyaf effeithiol pan gânt eu cyfuno â mesurau eraill i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal. Tanlinellwyd bod angen brys i gynnal ymchwil bellach i effeithiolrwydd ac arfer gorau yng nghyd-destun cwotâu ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill. Er bod llawer o waith wedi'i wneud ar gwotâu rhyw, ni fyddai'r rhain yn arwain at Senedd sy'n gynrychioliadol o'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu ac felly roedd angen bwrw ymlaen â'r gwaith o hyrwyddo cwotâu amrywiaeth fel mater o frys fel rhan o Gam 2 o'r rhaglen Diwygio Etholiadol.<br><br>Yn y cyflwyniad, cafwyd trosolwg o'r gynrychiolaeth bresennol o ran menywod, pobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl sy'n uniaethu'n agored fel LGBTQ+ yn y Senedd. Nodwyd bod cynrychiolaeth yn amrywio'n fawr o fewn y gwahanol grwpiau gwleidyddol a'i bod yn aml yn dibynnu ar gynlluniau pleidiau unigol. Roedd y cynnydd a wnaed felly'n fregus, yn enwedig o ran cynrychiolaeth y boblogaeth Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau LGBTQ +, tra bod prinder data mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig eraill fel anabledd.<br><br>Galwodd y cyflwynwyr ar i Aelodau o bob plaid ddod at ei gilydd gan fod angen mynd ati'n awr i weithredu. Byddai cwotâu yn mynd law yn llaw â chynyddu maint y Senedd a chyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, ond roedd amserlenni'n hollbwysig. Roedd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol yn amcangyfrif y byddai angen i ddeddfwriaeth fod ar waith erbyn diwedd 2022 er mwyn gweld newidiadau yn etholiadau 2026. Os caiff y cyfle hwn ei golli, byddwn yn colli degawd arall bron i fwrw ymlaen â chynrychiolaeth gyfartal ac amrywiol. Daeth y cyflwyniad i ben drwy alw ar y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i gefnogi'r achos drwy gynnal ymchwiliad i gwotâu amrywiaeth a chymhwysedd deddfwriaethol. |

| | |
|---|---|
| **3** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol –** Jenny Rathbone AS.<br><br>Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol nad oedd blaenraglen waith y Pwyllgor wedi'i chytuno'n llawn eto. Ni ellid diystyru ymchwiliad i gwotâu rhyw ac amrywiaeth ar hyn o bryd ond byddai angen i'r Pwyllgor gytuno ar hyn. Dadleuodd Jenny Rathbone AS fod momentwm ar lawr gwlad yn hanesyddol wedi arwain at gynnydd yng nghynrychiolaeth menywod yn Llafur Cymru tra bod gan Blaid Cymru a'r Ceidwadwyr rhagor o waith i'w wneud. Roedd yn cydnabod bod angen egluro cwotâu amrywiaeth. Roedd angen sicrhau, meddai, bod pobl Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn yn y Senedd, cyhyd ag y bo modd, a bod amrywiaeth yn cael ei dathlu ar hyd a lled Cymru. Dywedodd Jenny Rathbone AS y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am y cynnig hwn. |
| **4** | **Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol**<br><br>Dywedodd Sian Gwenllian AS fod angen rhwymedigaethau statudol ar bob plaid wleidyddol i sicrhau newid parhaol ac ystyrlon yn y Senedd.<br><br>Dywedodd Laura Jones MS y byddai angen i Geidwadwyr Cymru wneud yn well o ran cynrychiolaeth menywod. Roedd angen ystyried y ffactorau sy'n dal menywod yn ôl gan nad oedd prinder ymgeiswyr benywaidd rhagorol yn y blaid. Roedd yn bwysig bod safbwyntiau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu clywed yn y Senedd ac roedd hi'n barod i dderbyn awgrymiadau ar y ffordd orau o sicrhau hyn. Nododd hefyd fod y gostyngiad yng nghynrychiolaeth menywod ers 2003 wedi arwain at ddirywiad yn y Senedd o ran polisïau fel oriau sy'n ystyriol o deuluoedd a darpariaethau gofal plant. Roedd hyn yn cryfhau'r ddadl fod angen cynrychiolaeth 50-50 o bosibl i gytuno ar bolisïau blaengar a'u cynnal.<br><br>Ychwanegodd Peter Fox AS nad oedd hwn yn fater gwleidyddol a bod angen i Aelodau o'r Senedd o bob grŵp plaid hyrwyddo cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal o fewn eu pleidiau eu hunain.<br><br>Dywedodd Leena Farhat y dylem ystyried cynnal ymchwiliad i hiliaeth strwythurol i amlygu'r holl ffactorau sy'n arwain yn gyson at sefyllfa lle nad yw pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol. Nododd ymhellach fod angen mwy o waith i sicrhau bod pobl draws a anneuaidd yn cael eu cefnogi a'u cynnwys wrth ddatblygu polisïau.<br><br>Yn ogystal â defnyddio cwotâu o fewn y pleidiau, dywedodd Alison Parken y dylem ystyried cyflwyno gofynion deddfwriaethol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gyflawni cwotâu cyn y gallent ffurfio llywodraeth, fel y gwnaed yn Sbaen er enghraifft. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Jane Dodds AS y byddai'n ddiddorol clywed mwy am y dystiolaeth a'r profiad yn ymwneud â defnyddio rhestrau byr i fenywod yn unig ar gyfer etholiadau Senedd.<br><br>Dywedodd Laura McAllister na allem fforddio colli'r cyfle hwn i gynnwys cwotâu yn y rhaglen diwygio etholiadol ar hyn o bryd gan ei fod yn gyfle prin i newid y sefyllfa'n sylweddol.<br><br>Er mwyn hybu amrywiaeth yn llwyddiannus wrth lenwi rôl , nododd Rhianydd Williams fod angen i ni hefyd fynd i'r afael â'r hiliaeth a'r anfantais systemig y byddai pobl yn eu hwynebu yn y rôl hon a sicrhau bod dulliau o'u cynorthwyo ar waith ochr yn ochr â chwotâu.<br><br>Awgrymodd Sioned Williams AS y gallai'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol edrych ar ddulliau a fyddai o gymorth, fel rhannu swyddi, arferion gwaith cynhwysol a rôl addysg.<br><br>Eglurodd Catherine Fookes nad oedd cwotâu rhyw ar waith yng Nghymru ac na fu cwotâu o'r fath ar waith yma erioed. Dadleuodd na allwn gyflwyno cwotâu rhyw heb gyflwyno cwotâu amrywiaeth gan y byddai hynny'n siomi menywod o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a menywod â nodweddion gwarchodedig eraill. Er bod y Panel Arbenigol a Phwyllgor y Senedd ar Ddiwygio Etholiadol wedi gwneud llawer o waith ar gwotâu rhyw, roedd angen tystiolaeth ar gwotâu amrywiaeth ar fyrder ac roedd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol mewn sefyllfa ardderchog i gael y dystiolaeth honno drwy gynnal ymchwiliad.<br><br>Awgrymodd Jen Ramsay y gallai'r Grŵp gyflwyno sylwadau i Gomisiwn y Senedd i'w annog i gefnogi polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd, fel rhannu swyddi. Roedd hefyd yn bwysig ystyried cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal ymhlith staff y Senedd.<br><br>Pwysleisiodd Sian Gwenllian AS ei bod yn hanfodol gweithredu'n awr i hyrwyddo cwotâu amrywiaeth a rhyw fel rhan o'r drafodaeth ynghylch diwygio etholiadol.<br><br>Tanlinellodd Evelyn James yr angen i bobl o bob sector a chymuned ddod ynghyd yn y frwydr dros sefydlu gwotâu gan fod denu pobl o gymunedau amrywiol i'r Senedd yn gyfle unigryw i sicrhau newid arwyddocaol.<br><br>Dywedodd Jackie Jones y byddai'n amserol cael barn gyfreithiol ar ddeddfwriaeth cwotâu neu gomisiynu arbenigwr cyfreithiol i edrych ar y ddeddfwriaeth. |
| **5** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru) -** Jackie Jones<br><br>Pwysleisiodd Jackie Jones fod llawer o waith ar gydraddoldeb rhywiol a hawliau menywod yn digwydd yn yr UE, Cyngor Ewrop a'r aelod-wladwriaethau unigol. |

| | |
|---|---|
| | Yn ei haraith ar Gyflwr yr Undeb Ewropeaidd, roedd Ursula van der Leyen wedi cyhoeddi cyfarwyddeb erbyn diwedd 2021 i frwydro yn erbyn trais ar sail rhywedd a cham-drin domestig, a fyddai'n gwneud trais yn erbyn menywod yn drosedd drwy'r UE. Gallai Cymru ystyried sut roedd hyn yn cymharu â chyfraith Cymru a gwneud ei deddfwriaeth ei hun yn gydnaws o bosibl.<br><br>Mae'r Sefydliad Cydraddoldeb Rhywiol Ewropeaidd (EIGE) yn cynnig llawer o setiau data perthnasol ac roedd wedi cynhyrchu pecyn cymorth ar gyfathrebu sy'n sensitif o ran y rhywiau yn ddiweddar a allai fod o ddiddordeb i'r Aelodau o'r Senedd a chynrychiolwyr y trydydd sector.<br><br>Mae Cyngor Ewrop wedi rhyddhau taflen ffeithiau ar ddyfarniadau yn ymwneud â hawliau pobl LGBTI yr oedd disgwyl i bob un o'r 47 aelod-wladwriaeth (gan gynnwys y DU) eu dilyn.<br><br>Roedd archwiliad CEDAW o'r DU yn cael ei gynnal gyda WEN Cymru yn bwydo i mewn i'r adroddiad ar gyfer Cymru. Gallai'r Grŵp hefyd fwydo i'r archwiliadau hyn, er enghraifft drwy roi'r cynnig ar gwotâu amrywiaeth a rhywedd gerbron Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth. Byddai hynny'n creu llwybr arall i hyrwyddo'r agenda hon.<br><br>Roedd Sima Sami Bahous o Wlad yr Iorddonen wedi'i phenodi'n gyfarwyddwr newydd UN Women. Roedd y sefydliad wedi rhyddhau dogfennau newydd yn ddiweddar, gan gynnwys Beyond COVID-19: A feminist plan for sustainability and social justice. |
| **6** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Hydref 2021 am 11:30. |
| 7 | *Cloi* |